27ain o Chwefror 2021

Annwyl Gynghorydd,

Gwysir chwi i gyfarfod o Gyngor Tref Frenhinol Caernarfon i'w gynnal Nos Fawrth, 2il o Fawrth 2021 am 6.00 o'r gloch yr hwyr.

Oherwydd Covid-19 bydd y cyfarfod yn cymryd lle o'ch cartref, ar lein drwy ddefnyddio system "Zoom".

Bydd gwahoddiad ffurfiol i'r sustem trwy "Zoom" yn cael ei anfon atoch cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

Yn gywir,

Sion Wyn Evans
Clerc y Dref

Rhaglen

1.Ymddiheuriadau

2.Cyhoeddiadau'r Maer

3.Datgan Buddiant Personol

4.Eitemau Brys (Cadeirydd/Clerc). Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau

5.Cofnodion

I gadarnhau y cofnodion canlynol (yng nghefn y rhaglen):-

(i) Cyngor Llawn, 2il o Chwefror 2021 (**Atodiad Gwyrdd**).
(ii) Pwyllgor Cyllid, 9fed o Chwefror 2021 (**Atodiad Coch**).
(iii) Pwyllgor Adloniant, 22ain o Chwefror 2021 (**Atodiad Pinc**).

6.Cyfrifon

I gymeradwyo'r biliau rhoddion a chyflogau i'w talu.

7. Cyfrifon Incwm a gwariant a chysoni cyfrifon

8. Maerolaeth 2021/22

Cyflwyno ymateb i unrhyw drafodaethau rhwng y cynigydd, eilydd a'r Maer Etholedig, y Cynghorydd Maria Sarnacki.

9. Maerolaeth 2021/22

Ethol Dirprwy Faer ar gyfer 2021/22.

10. Adeilad yr Institiwt

Cyflwyno adroddiad llafar y Clerc yn rhoi'r sefyllfa ddiweddaraf ar Adeilad yr Institiwt.

11. Sbwriel a Thipio Anghyfreithlon i Gymru

Cyflwyno gwybodaeth am ymgynghoriad sydd yn cau ar yr 22ain o Ebrill. Gofynnir am sylwadau Cynghorau Cymuned a Thref (copi ynghlwm).

12. Gwasanaeth Ieuenctid

Cyflwyno adroddiad llafar y Clerc ar y Gwasanaeth Ieuenctid.

13. Sgriniau CGI

Cyflwyno gwybodaeth gan Gyngor Gwynedd am y bwriadau o ran yr uchod, er mwyn cael trafodaeth pellach ar y mater (copi ynghlwm).

14. Meysydd Parcio

(a) Mae'r Cyngor Tref wedi penderfynu bod yn rhan o'r cynllun 10% y llynedd (cynyddu a chadw 10% o'r incwm talu ac arddangos parcio i fynd tuag at brosiectau cymunedol).
(b) Yn sgil Cofid 19, cafodd y cynlluniau eu gohirio.
(c) Cafodd strwythur ffioedd parcio newydd ei gymeradwyo gan Gabinet Cyngor Gwynedd yn ddiweddar a cyn mynd ymlaen gyda'r trefniadau, mae angen penderfyniad ffurfiol os yw'r Cyngor Tref yn awyddus ymuno â'r cynllun y flwyddyn hon, sef o Ebrill 2021 ymlaen.

15. Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog Gogledd Cymru

Cyflwyno, er gwybodaeth gofnodion drafft o'r cyfarfod o Gylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar y 18fed o Dachwedd, 2020 (copi ynghlwm).

16. Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol

(a) Bod angen penderfyniad ar y materion a nodir yn y tabl ar dudalen 45 a 46 o'r linc ynghlwm isod:

WG41260 (llyw.cymru)

(b) Cyflwyno gohebiaeth o ran Adolygu Fframwaith Taliadau Cynghorau Cymuned a Chynghorau Tref (copi ynghlwm)

17. Cwestiynau

18. Cau Allan y Wasg a'r Cyhoedd

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau canlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

19. Grant CaerAilGyfle

Cyflwyno adroddiad y Clerc yn rhoi diweddariad ar yr uchod (copi ynghlwm).